

# Omnibws y Plant 2019

Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yn y Celfyddydau unwaith y flwyddyn neu fwy fesul ffurf gelf

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gwybodaeth mewn print bras a braille, ynghyd â fformatau sain a Hawdd eu Deall, ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

---

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Clawr: Chwarae, Theatr Iolo (llun: Kirsten Mcternan)

# Cynnwys


Cyflwyniad .... 4
Cyfranogiad mewn gweithgareddau cerddorol .... 6
Cyfranogiad mewn drama neu weithgareddau theatr .... 9
Cyfranogiad mewn dawns .... 14
Cyfranogiad mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth .... 18
Cyfranogiad mewn celfyddydau a chrefftau gweledol .... 22
Cyfranogiad mewn celfyddydau digidol .... 26
Cyfranogiad mewn ysgrifennu creadigol .... 30
Atodiad 1: Diffiniadau Graddau Cymdeithasol .... 34
Atodiad 2: Rhanbarthau .... 35
Atodiad 3: Holiadur Arolwg 2019 .... 36

# Cyflwyniad

## Cefndir

Ers 2007, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cynnal arolwg blynyddol o fynychiadau a chyfranogiad ymysg plant a phobl ifanc. Caiff gwybodaeth am fynychiadau mewn digwyddiadau celfyddydol a chyfranogiad mewn gweithgareddau artistig ei chasglu trwy gyfres o gwestiynau a ofynnir yn Arolwg Omnibws Plant Beaufort Research pob blwyddyn. Mae copi o'r holiadur a ddefnyddir i gasglu'r wybodaeth wedi'i ddarparu yn Atodiad 3 i'r adroddiad hwn.

Ceir cyflwyniad llawn i Omnibws y Plant yn y prif adroddiad o'r enw 'Omnibws y Plant 2019: Mynychiadau a Chyfranogiad Cyffredinol yn y Celfyddydau unwaith y flwyddyn neu fwy'.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi lefelau cyfranogiad yn ôl nodwedd ddemograffig a rhanbarthol ar gyfer pob ffurf gelf.

## Methodoleg

### Cyflwyno data

Cyflwynir y data mewn cyfres o siartiau bar a llinell, sy'n dangos canran y plant a phobl ifanc sydd wedi cymryd rhan ym mhob un o'r gweithgareddau y gofynnwyd amdanynt yn yr arolwg. Rhennir y canlyniadau yn ôl rhanbarth a grŵp demograffig allweddol. Lle cyflwynir amlder cyfranogiad, mae'n cyfeirio at gyfradd o unwaith y flwyddyn neu amlach.

Ceir diffiniadau o ranbarthau a graddau cymdeithasol yn Atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad hwn.

Nid yw rhai ffigyrau'n adio i 100% oherwydd mai'r sampl iddynt yw plant a phobl ifanc a allai fod wedi cymryd rhan mewn mwy nag un ffurf gelf mewn mwy nag un ffordd.

### Cyfranogiad ar gyfer pob ffurf gelf


Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa mor aml yr oeddent yn cymryd rhan ym mhob un o'r gweithgareddau canlynol:

- Gweithgareddau cerddorol
- Drama neu weithgaredd theatr
- Gweithgaredd dawns
- Gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth
- Celfyddydau a chrefftau gweledol

- Celfyddydau digidol
- Ysgrifennu creadigol

Dylid nodi, hyd at 2009, roedd yr arolwg yn gofyn am ‘gelfyddydau cyfryngol' yn hytrach na 'chelfyddydau digidol', a gyflwynwyd yn 2010. Er ei fod yn edrych ar fath tebyg o weithgaredd yn fras, cafodd y celfyddydau cyfryngol eu diffinio fel dylunio gwefannau a gweithio gyda'ch cyfrifiadur personol, ond mae celfyddydau digidol yn cael eu diffinio’n gliriach fel a ganlyn: creu a gwneud darnau celfyddydol gan ddefnyddio technoleg ddigidol e.e. lanlwytho, creu neu ailgymysgu cynnwys cysylltiedig â’r celfyddydau (e.e. ar YouTube, Flickr).

## Cyfranogiad mewn gweithgareddau cerddorol





Ffigwr 1. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

Mae llai na hanner y plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol o leiaf unwaith y flwyddyn ers 2018, gan gynyddu llai na hanner pwynt canran i 46% yn 2019.


## Sut a phryd y cyfranogir mewn gweithgareddau cerddorol

Mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol yn ystod oriau ysgol gan fwyaf (62.4%), ac mae 32.6% yn cymryd rhan yn ystod eu hamser eu hunain. Mae lleiafrif o 4.1% yn cymryd rhan ar ysgogiad ysgolion ond y tu allan i oriau ysgol.




Ffigwr 1. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl lleoliad.

## Cyfranogiad mewn gweithgareddau cerddorol yn ôl gradd gymdeithasol





Ffigwr 2. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl gradd gymdeithasol.

Mae plant a phobl ifanc o gartrefi ABC1 yn fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol, sef 46.5%. Mae mynychiadau ymysg plant o aelwydydd C2DE 7.2 pwynt canran yn is, sef 42.3% (yn is na'r lefelau cyfartalog).


## Cyfranogiad mewn gweithgareddau cerddorol yn ôl rhywedd

Merched sy'n fwyaf tebygol o gyfranogi mewn gweithgareddau cerddorol, gyda 49.2% yn cymryd rhan o leiaf unwaith yn 2019 – yr un lefelau â 2018. Mae lefelau cyfranogiad bechgyn yn sefydlog hefyd sef 42.9%, sy'n is na'r lefelau cyfartalog.




Ffigwr 3. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl rhywedd.

## Cyfranogiad mewn gweithgareddau cerddorol yn ôl oedran





Mae cyfranogiad mewn gweithgareddau cerddorol ar ei uchaf ymysg plant 7-10 oed sef 67.8%, wedyn rhai 11- i 15 oed sef 45.1%. Cymerodd oddeutu chwarter o'r rhai 16-18 oed ran o leiaf unwaith yn 2019. Mae'r lefelau hyn wedi aros yn sefydlog ers 2018.

Ffigwr 4. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl oedran.


## Cyfranogiad mewn gweithgareddau cerddorol yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru

Fel yn 2018, rhanbarth y De-orllewin sydd â'r lefelau cyfranogiad cryfaf mewn gweithgareddau cerddorol yn 2019, gyda 49.1% o'r boblogaeth ifanc yn cymryd rhan o leiaf unwaith y flwyddyn honno. Fe'i dilynir gan Ganolbarth y De sef 47.9%. Mae gan ranbarthau'r De-ddwyrain a'r Gogledd lefelau is na'r cyfartaledd o hyd, sef 43.9% a 40.9% yn y drefn honno.




Ffigwr 6. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.


## Cyfranogiad mewn gweithgareddau cerddorol yn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Ffigwr 5. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

Mae siaradwyr Cymraeg yn dal i fod yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol o leiaf unwaith y flwyddyn na rhai nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg, sef 51.6% o gymharu â 42.6% yn y drefn honno. Mae'r gwahaniaeth rhyngddynt wedi gostwng o 12.2 pwynt canran yn 2018 i 9 pwynt canran yn 2019.

## Cyfranogiad mewn drama neu weithgareddau theatr





Ffigwr 6. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn drama neu weithgareddau theatr unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

Mae cyfranogiad mewn drama neu weithgareddau theatr wedi aros yn sefydlog ers 2017, gyda 35% o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn 2019.


## Sut a phryd y cyfranogir mewn drama neu weithgareddau theatr

Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau theatr yn ystod oriau ysgol, sef 78.7%. Mae un chweched ohonynt yn cymryd rhan yn eu hamser eu hunain, ac mae lleiafrif o 5.1% yn cyfranogi ar ysgogiad ysgolion ond y tu allan i oriau ysgol.




Ffigwr 7. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn drama neu weithgareddau theatr unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl lleoliad.

## Cyfranogiad mewn drama neu weithgareddau theatr yn ôl gradd gymdeithasol





Ffigwr 8. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn drama neu weithgareddau theatr unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl gradd gymdeithasol.

Gwelwyd gostyngiad 3.9 pwynt canran mewn cyfranogiad mewn drama/theatr ymysg plant a phobl ifanc o gefndiroedd ABC1 i 39.4%, fodd bynnag maent yn dal i fod yn fwy tebygol o gymryd rhan na phlant o gartrefi C2DE, o 9.1 pwynt canran.


## Cyfranogiad mewn drama neu weithgareddau theatr yn ôl rhywedd

Mae merched yn fwy tebygol o gyfranogi mewn drama neu theatr na bechgyn, sef 37.4% a 32.7% yn y drefn honno. Mae'r gwahaniaeth rhyngddynt wedi gostwng o 7.4 pwynt canran yn 2018 i 4.7 pwynt canran yn 2019, gan fod cyfranogiad bechgyn wedi aros yn sefydlog ond cyfranogiad merched wedi gostwng 2.2 pwynt canran.




Ffigwr 9. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn drama neu weithgareddau theatr unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl rhywedd.

## Cyfranogiad mewn drama neu weithgareddau theatr yn ôl oedran





Ffigwr 10. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn drama neu weithgareddau theatr unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl oedran.

Plant 7-10 oed sy'n fwyaf tebygol o hyd o gymryd rhan mewn drama neu theatr, sef 45.2%, fodd bynnag mae'r lefelau hyn wedi gostwng ond mae cyfranogiad pobl ifanc 11-15 oed a 16-18 oed wedi cynyddu i 44.5% ac 16.6% yn y drefn honno.


## Cyfranogiad mewn drama neu weithgareddau theatr yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru

Rhanbarth Canolbarth y De sydd â'r lefel cyfranogiad uchaf mewn drama neu theatr o hyd, gyda 38.2% o'r plant a phobl ifanc wedi cymryd rhan o leiaf unwaith yn 2019. Wedyn daw'r De-orllewin a'r De-ddwyrain sef 35.9% a 35.7% yn y drefn honno. Yn y Gogledd y gwelwyd y gostyngiad mwyaf mewn cyfranogiad, 3.8 pwynt canran i 28.9%.




Ffigwr 11. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn drama neu weithgareddau theatr unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.


## Cyfranogiad mewn drama neu weithgareddau theatr yn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Ffigwr 12. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn drama neu weithgareddau theatr unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

Mae siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn drama/theatr sef 44%, ac mae cyfranogiad y rhai nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg wedi gostwng i 29.5% - sy'n dal i fod yn is na'r lefelau cyfranogiad cyfartalog.

## Cyfranogiad mewn dawns





Mae'r cyfranogiad mewn dawns yn dal i ostwng yn araf, er llai nag un pwynt canran rhwng 2018 a 2019: cymerodd un bumed o blant a phobl ifanc ran o leiaf unwaith yn 2019 (20.3%).

Ffigwr 13. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn dawns unwaith y flwyddyn neu'n amlach.


## Sut a phryd y cyfranogir mewn dawns

Mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dawns yn ystod oriau ysgol gan fwyaf (45.6%) neu yn eu hamser eu hunain (42.5%), gyda 10.3% yn cymryd rhan ar ysgogiad ysgolion ond y tu allan i oriau ysgol.




Ffigwr 14. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn dawns unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl lleoliad.

## Cyfranogiad mewn dawns yn ôl gradd gymdeithasol





Ffigwr 15. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn dawns unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl gradd gymdeithasol.

Mae cyfranogiad mewn dawns ar ei uchaf ymysg plant o aelwydydd ABC1 (21.5%). Fodd bynnag, mae wedi gostwng 1.5 pwynt canran ers 2018, gan leihau'r bwlch mewn cyfranogiad rhyngddynt a'r rhai o gartrefi C2DE i 2.4 pwynt canran.


## Cyfranogiad mewn dawns yn ôl rhywedd

Mae merched mwy na dwywaith yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau Dawns na bechgyn, gyda 28%  o ferched yn cyfranogi a 12.9%  o fechgyn yn cyfranogi. Mae cyfranogiad wedi cynyddu 3.1 pwynt canran ymysg bechgyn fodd bynnag, ond mae wedi lleihau 4.6 pwynt canran ymysg merched.




Ffigwr 16. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn dawns unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl rhywedd.

## Cyfranogiad mewn dawns yn ôl oedran





Ffigwr 17. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn dawns unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl oedran.

Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, po ifancaf yw'r plant, mwyaf tebygol ydynt o gymryd rhan mewn dawns o leiaf unwaith y flwyddyn: cyfranogodd 32.6% o rai 7-10 oed unwaith neu fwy yn 2019, 24.4% o rai 11-15 oed a 15% o rai 16-18 oed. Rhai 7-10 oed yw'r unig grŵp oedran lle gwelwyd gostyngiad mewn cyfranogiad fodd bynnag, sef 4.3 pwynt canran. Roedd y cynnydd uchaf ymysg rhai 16-18 oed y mae eu cyfranogiad bron â dyblu ers 2018.


## Cyfranogiad mewn dawns yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru

Canolbarth y De sydd â'r cyfranogiad uchaf mewn dawns sef 22.3%, wedyn daw'r De-ddwyrain ag 20.9%, y Gogledd â 19.2% ac yn olaf y De-orllewin â 18.9%. Mae hyn yn ostyngiad i'r De-ddwyrain a'r De-orllewin, 2 bwynt canran ac 1.4 pwynt canran yn y drefn honno.




Ffigwr 18. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn dawns unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.


## Cyfranogiad mewn dawns yn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Ffigwr 19. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn dawns unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

Mae cyfranogiad mewn dawns ar ei uchaf ymysg siaradwyr Cymraeg, sef 27.5%, 2.7 pwynt canran o gynnydd ers 2018. Mae wedi gostwng 1.5 pwynt canran ymysg rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg fodd bynnag, i 16% - gan gynyddu'r bwlch rhwng siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg o 6.3 pwynt canran yn 2018 i 11.5 pwynt canran yn 2019.

## Cyfranogiad mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth





Ffigwr 20. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

Gwelwyd 1.5 pwynt canran o gynnydd mewn cyfranogiad mewn ffilm, fideo a ffotograffiaeth, gyda 37.4% o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan o leiaf unwaith y flwyddyn yn 2019, gan gyrraedd lefelau 2017 eto bron.


## Sut a phryd y cyfranogir mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth

Mae plant a phobl ifanc yn cyfranogi mwyaf mewn gwneud ffilm/ fideo /ffotograffiaeth yn eu hamser eu hunain (heb ei drefnu gan yr ysgol) sef 54.5%. Mae hyn yn 11.2 pwynt canran o leihad ers 2018. Mae mynychiadau a drefnir gan ysgol yn ystod oriau ysgol wedi cynyddu 12.5 pwynt canran i 40.9%. Mae 4% o'r cyfranogiad yn cael ei threfnu gan ysgol ond y tu allan i oriau ysgol.




Ffigwr 21. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl lleoliad.

## Cyfranogiad mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotografffiaeth yn ôl gradd gymdeithasol





Ffigwr 22. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotografffiaeth unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl gradd gymdeithasol.

Mae cyfranogiad mewn gwneud ffilm/fideo/ ffotografffiaeth yn uwch ymysg plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 (41.9%) na'r rhai o gartrefi C2DE (32.9%).

## Cyfranogiad mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotografffiaeth yn ôl rhywedd


Ar ôl gostyngiad mewn mynychiadau rhwng 2017 a 2018, mae lefelau cyfranogiad merched a bechgyn wedi cynyddu'n ôl yn 2019 – gyda bechgyn yn dal i fod yn fwy tebygol o gymryd rhan. Cynyddodd mynychiadau merched 2.9 pwynt canran i 37% - sy'n dal i fod yn is na lefelau 2017. Cymerodd 37.8% o fechgyn ran o leiaf unwaith, 1.8 pwynt canran o gynnydd.

Hon yw'r unig ffurf gelf heblaw celfyddydau digidol lle mae bechgyn yn gyson fwy tebygol o gyfranogi na merched.




Ffigwr 23. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotografffiaeth unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl rhywedd.

## Cyfranogiad mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth yn ôl oedran




Ffigwr 24. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl oedran.


Po ifancaf, po fwyaf tebygol o gyfranogi mewn gwneud ffilm, fideo neu ffotograffiaeth: cymerodd 37.4% o blant a phobl ifanc ran o leiaf unwaith yn 2019, 37.1% o rai 11-15 oed a 25.6% o rai 16-18 oed.

Er bod cyfranogiad rhai 11-15 oed wedi cynyddu a rhai 7-10 oed wedi aros yn sefydlog, gwelwyd gostyngiad mewn cyfranogiad ymysg rhai 16-18 oed, sef 7.8 pwynt canran.

## Cyfranogiad mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru


Y Gogledd sydd â'r cyfranogiad uchaf mewn gwneud ffilm/fideo/ ffotograffiaeth yn 2019, gyda 41.8% yn cymryd rhan o leiaf unwaith. Wedyn daw'r De-orllewin (37.5%), Canolbarth y De (36.3%) ac yna'r De-ddwyrain (33.7%).

Gwelwyd cynnydd mewn mynychiadau yn y Gogledd a Chanolbarth y De ond gwelwyd lleihad mewn mynychiadau yn y De-ddwyrain a'r De-orllewin.




Ffigwr 25. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.


## Cyfranogiad mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth yn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Ffigwr 26. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

Mae siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gwneud ffilm, fideo neu ffotograffiaeth: cyfranogodd 43.2% o leiaf unwaith yn 2019. 9.2 pwynt canran yn is na hynny, cyfranogodd 34% o'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg unwaith neu fwy – 3.4 pwynt canran yn is na'r lefelau cyfartalog.

## Cyfranogiad mewn celfyddydau a chrefftau gweledol





Ffigwr 27. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn celfyddydau a chrefftau gweledol unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

Mewn cyfranogiad mewn celfyddydau a chrefftau gweledol y gwelwyd y gostyngiad mwyaf (5.6 pwynt canran) yn y tair blynedd diwethaf, ac ymysg yr holl ffurfiau celf eleni, gyda 59.1% o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan o leiaf unwaith yn 2019. Bellach nid hon yw'r ffurf gelf y cyfranogir ynddi fwyaf.


## Sut a phryd y cyfranogir mewn celfyddydau a chrefftau gweledol

Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn celfyddydau a chrefftau gweledol yn ystod oriau ysgol sef 66.6%. Mae 29.8% yn cyfranogi yn eu hamser eu hunain, ac mae 3.2% yn cymryd rhan ar ysgogiad ysgolion ond y tu allan i oriau ysgol.




Ffigwr 28. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn celfyddydau a chrefftau gweledol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl lleoliad.

## Cyfranogiad mewn celfyddydau a chrefftau gweledol yn ôl gradd gymdeithasol





Ffigwr 29. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn celfyddydau a chrefftau gweledol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl gradd gymdeithasol.

Mae cyfranogiad mewn celfyddydau a chrefftau gweledol yn ôl gradd gymdeithasol wedi codi a gostwng dros y blynyddoedd: yn 2018 roedd ar ei uchaf ymysg plant a phobl ifanc o gefndiroedd C2DE, ond yn 2019 roedd yn uwch ymysg y rhai o aelwydydd ABC1 (61.1%). Mae hyn yn ostyngiad mewn lefelau cyfranogiad i'r ddau grŵp, fodd bynnag mae'r gostyngiad mwyaf ymysg y grŵp C2DE, y gostyngodd ei gyfranogiad 7.1 pwynt canran i 56.9%.


## Cyfranogiad mewn celfyddydau a chrefftau gweledol yn ôl rhywedd

Mae merched yn dal i fod yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn celfyddydau/crefftau gweledol, sef 63.5% - 8.7 pwynt canran yn uwch na chyfranogiad bechgyn sef 54.8%. Mae hyn yn ostyngiad mewn cyfranogiad ers 2018 i'r ddau grŵp, 5.5 pwynt canran i fechgyn a 5.8 pwynt canran i ferched. Mae cyfranogiad bechgyn mewn celfyddydau a chrefftau gweledol yn awr yn is na'r lefelau cyfartalog.




Ffigwr 30. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn celfyddydau a chrefftau gweledol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl rhywedd.

## Cyfranogiad mewn celfyddydau a chrefftau gweledol yn ôl oedran





Ffigwr 31. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn celfyddydau a chrefftau gweledol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl oedran.

Po hynaf, po leiaf tebygol o gymryd rhan mewn celfyddydau a chrefftau gweledol o leiaf unwaith y flwyddyn: cymerodd 81.6% o rai 7-10 oed ran o leiaf unwaith yn 2019, 66.1% o rai 11-15 oed, a 25.7% o rai 16-18 oed. Mae'r rhain yn lefelau cyfranogiad is na 2018 i'r holl grwpiau oedran, gyda'r gostyngiad mwyaf ymysg pobl ifanc 16-18 oed, sef 6.9 pwynt canran.


## Cyfranogiad mewn celfyddydau a chrefftau gweledol yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru

Y Gogledd sydd â'r cyfranogiad uchaf mewn celfyddydau a chrefftau gweledol yn 2019, gyda 63.6% o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan unwaith neu fwy. Wedyn daw'r De-orllewin â 60.4%, Canolbarth y De â 58.8% a'r De-ddwyrain â 51.7%. Gwelwyd gostyngiad mewn cyfranogiad yn y celfyddydau a chrefftau gweledol yn y pedwar rhanbarth, gyda'r mwyaf yn digwydd yn y De-ddwyrain sef 6.1 pwynt canran. Erbyn hyn gwelir cyfranogiad is na'r cyfartaledd mewn dau ranbarth, sef y De-ddwyrain a Chanolbarth y De.




Ffigwr 32. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn celfyddydau a chrefftau gweledol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.


## Cyfranogiad mewn celfyddydau a chrefftau gweledol yn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Ffigwr 33. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn celfyddydau a chrefftau gweledol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

Mae cyfranogiad siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu ychydig, 1.8 pwynt canran i 69.1%, ac mae cyfranogiad rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi gostwng 10.1 pwynt canran i 53%. Felly mae siaradwyr Cymraeg yn dal i fod yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn celfyddydau/crefftau gweledol na rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg, fodd bynnag mae'r gwahaniaeth rhyngddynt wedi cynyddu o 4.2 pwynt canran yn 2018 i 16.1 pwynt canran yn 2019.

## Cyfranogiad mewn celfyddydau digidol





Ffigwr 34. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn celfyddydau digidol unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

Mae cyfranogiad mewn celfyddydau digidol wedi aros ar lefelau tebyg i 2018, sef 41.9%, ar ôl gostyngiad sydyn rhwng 2017 a 2018.


## Sut a phryd y cyfranogir mewn celfyddydau digidol

Mae hanner y plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn celfyddydau digidol yn ystod oriau ysgol (50.1%), ac mae 45.1% yn cyfranogi yn eu hamser eu hunain y tu allan i'r ysgol. Roedd cyfranogiad ar ysgogiad ysgolion ond y tu allan i oriau ysgol wedi haneru bron, i 3.8%.




Ffigwr 35. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn celfyddydau digidol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl lleoliad.

## Cyfranogiad mewn celfyddydau digidol yn ôl gradd gymdeithasol





Ffigwr 36. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn celfyddydau digidol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl gradd gymdeithasol.

Gyda chanran cyfranogiad o 43.6% , plant o aelwydydd ABC1 sy'n fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn celfyddydau digidol. Mae'r cyfranogiad gan blant o gefndiroedd C2DE 3.5 pwynt canran yn is, sef 40.1%.

## Cyfranogiad mewn celfyddydau digidol yn ôl rhywedd


Mae bechgyn yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn celfyddydau digidol na merched o 4.8 pwynt canran, sef 44.3% - cynnydd ers 2018. Mae cyfranogiad merched wedi gostwng, i 39.5%.

Dyma'r unig ffurf gelf ac eithrio ffilm/fideo/ffotograffiaeth y mae bechgyn yn gyson fwy tebygol o gyfranogi ynddi na merched.




Ffigwr 37. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn celfyddydau digidol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl rhywedd.

## Cyfranogiad mewn celfyddydau digidol yn ôl oedran





Ffigwr 38. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn celfyddydau digidol unwaith yn flwyddyn neu'n amlach yn ôl oedran.

Cymerodd mwy na hanner o rai 11-15 oed ran mewn celfyddydau digidol o leiaf unwaith yn 2018 (54.8%) – y lefelau cyfranogiad uchaf o'r holl grwpiau oedran. Wedyn daw rhai 7-10 oed gyda chanran cyfranogiad o 38% . Cyfranogodd ychydig mwy na chwarter o rai 16-18 oed o leiaf unwaith, sef 26.9%.

## Cyfranogiad mewn celfyddydau digidol yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru


Y Gogledd sydd â'r cyfranogiad uchaf mewn celfyddydau digidol yn 2019, gyda 46.2% o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan o leiaf unwaith. Yn ail agos daw Canolbarth y De, sef 45.2%. Mae hwn yn gynnydd i'r ddau.

Gwelwyd gostyngiad mewn cyfranogiad yn y De-ddwyrain a'r De-orllewin, sef 39.6% a 37.2% yn y drefn honno.




Ffigwr 39. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn celfyddydau digidol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.


## Cyfranogiad mewn celfyddydau digidol yn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Ffigwr 40. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn celfyddydau digidol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

Mae'r gwahaniaeth rhwng siaradwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn dal i gynyddu (o 7 pwynt canran yn 2018 i 11.3 pwynt canran yn 2019), wrth i gyfranogiad gynyddu ymysg siaradwyr Cymraeg i 49% a gostwng i 37.7%  ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

## Cyfranogiad mewn ysgrifennu creadigol





Ffigwr 41. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

Mae cyfranogiad mewn ysgrifennu creadigol wedi gostwng 2.3 pwynt canran i 60.8% eleni, ond erbyn hyn dyma'r ffurf gelf sydd â'r cyfranogiad uchaf.


## Sut a phryd y cyfranogir mewn ysgrifennu creadigol

Mae'r mwyafrif helaeth o blant a phobl ifanc yn cyfranogi mewn ysgrifennu creadigol yn ystod oriau ysgol sef 83.5%, gyda 16.5% yn cymryd rhan yn eu hamser eu hunain a lleiafrif o 2.9% yn cyfranogi ar ysgogiad ysgolion ond y tu allan i oriau ysgol.




Ffigwr 42. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl lleoliad.

## Cyfranogiad mewn ysgrifennu creadigol yn ôl gradd gymdeithasol





Ffigwr 43. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl gradd gymdeithasol.

Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd ABC1 yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol o leiaf unwaith y flwyddyn (64.9%) na'r rhai o gefndiroedd C2DE (56.5%). Mae hyn yn ostyngiad mewn cyfranogiad i'r ddau grŵp, 2.2 pwynt canran i'r grŵp ABC1 a 3.4 pwynt canran i'r grŵp C2DE.


## Cyfranogiad mewn ysgrifennu creadigol yn ôl rhywedd

Mae merched yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol na bechgyn o 10.5 pwynt canran, sef 66.2%, er y cymerodd mwy na hanner y bechgyn (55.7%) ran o leiaf unwaith y flwyddyn yn 2019. Mae hyn yn ostyngiad mewn cyfranogiad i'r ddau, gyda'r gostyngiad mwyaf ymysg merched sef 3.1 pwynt canran.




Ffigwr 44. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl rhywedd.

## Cyfranogiad mewn ysgrifennu creadigol yn ôl oedran





Ffigwr 45. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl oedran.

Mae cyfranogiad mewn ysgrifennu creadigol yn is wrth i blant fynd yn hŷn. Roedd ar ei uchaf ymysg rhai 7-10 oed sef 81.7%, wedyn rhai 11-15 oed sef 64.3%. Yn olaf, cymerodd chwarter o rai 16-18 oed ran o leiaf unwaith yn 2019. Mae hyn yn ostyngiad i bob grŵp, gyda'r gostyngiad mwyaf mewn lefelau cyfranogiad ymysg rhai 11-15 oed sef 6.1 pwynt canran.


## Cyfranogiad mewn ysgrifennu creadigol yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru

Yn 2019, Canolbarth y De sydd â'r cyfranogiad uchaf mewn ysgrifennu creadigol sef 65.7%, yr unig ranbarth yng Nghymru lle gwelwyd cynnydd mewn lefelau cyfranogiad yn y flwyddyn honno. Mae cyfranogiad yn y Gogledd wedi gostwng 5.7 pwynt canran i 60.7%, ac yn y De-orllewin 5.2 pwynt canran i 59%. Roedd cyfranogiad yn y De-ddwyrain yn debyg i lefelau 2018, sef 56.5%.




Ffigwr 46. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl Rhanbarth Cyngor Celfyddydau Cymru.

## Cyfranogiad mewn ysgrifennu creadigol ysn ôl y gallu i siarad Cymraeg




Ffigwr 47. Canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol unwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ôl y gallu i siarad Cymraeg.

Mae plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn dal i fod yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol na'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg, gyda 68.8% yn cymryd rhan o leiaf unwaith yn 2019, lle mae 56% o'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cyfranogi o leiaf unwaith. Mae hyn yn ostyngiad i'r ddau grŵp, 1.9 pwynt canran i siaradwyr Cymraeg a 2.5 i rai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

## Atodiad 1: Diffiniadau Graddau Cymdeithasol

Gellir rhannu'r boblogaeth yn chwe grŵp economaidd-gymdeithasol neu raddau cymdeithasol, sydd wedi'u seilio ar alwedigaeth Prif Enillydd Incwm yr aelwyd. Mae gan bawb ar yr aelwyd yr un radd gymdeithasol â'r Prif Enillydd Incwm. I gynorthwyo â'r gwaith dadansoddi, mae'r tair gradd gyntaf a'r tair gradd olaf yn aml yn cael eu rhoi mewn grwpiau fel ABC1 a C2DE, a welir fel y 'Dosbarthiadau Canol' a'r 'Dosbarthiadau Gweithiol':

A "Dosbarth canol uwch" – swyddi rheoli, gweinyddu a phroffesiynol uwch e.e. prif weithredwr, cyfarwyddwr cwmni, gwas sifil uwch, meddyg, barnwr, bargyfreithiwr, cyfrifydd gweithredol

B "Dosbarth canol" - swyddi rheoli, gweinyddu a phroffesiynol uwch a chanolig e.e. athro ysgol uwchradd, llyfrgellydd, rhaglennwr cyfrifiaduron, swyddog prawf, gweithiwr cymdeithasol

C1 "Dosbarth canol is" - swyddi goruchwylio, clerigol, is-reoli e.e. gweithwyr swyddfa/clerigol, goruchwyliwr ffatri, clerc banc, gwerthwr, myfyriwr

**ABC1 –**

swyddi proffesiynol, cymwys a rhai lle na wneir gwaith â llaw

C2 "Dosbarth gweithiol medrus" - gweithwyr llaw medrus e.e. Trydanwr, saer coed, ymladdwr tân, fforman

D "Dosbarth gweithiol" - gweithwyr llaw lled-fedrus a heb sgiliau e.e. gweithiwr mewn siop, gweithiwr ffatri, casglwr sbwriel, negesydd, staff bar

E Y rhai sy'n llwyr ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth gan gynnwys y rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir a phensiynwyr heb bensiynau preifat. Gweithwyr achlysurol.

**C2DE –**

gweithwyr llaw medrus, lled fedrus a heb sgiliau, a phobl nad ydynt yn gweithio

## Atodiad 2: Rhanbarthau

Diffiniadau Cyngor Celfyddydau Cymru o ranbarthau yw'r diffiniadau rhanbarthol y cyfeirir atynt drwy gydol yr adroddiad. Mae'r rhain i'w gweld isod:

| Enw'r Rhanbarth | Diffiniad |
|---|---|
| Y Gogledd | Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Ynys Môn, Gwynedd |
| Y De-orllewin | Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot |
| Canolbarth y De | Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful |
| Y De-ddwyrain | Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent |

# Atodiad 3: Holiadur Arolwg 2019

**Cyngor Celfyddydau Cymru**
**Cwestiynau Terfynol – Omnibws y Plant 2019**

DANGOS CERDYN
**C1 Pa mor aml wyt ti'n <u>mynd</u> i bob un o'r gweithgareddau rydw i'n eu darllen ichi?**

Yn gyntaf, pa mor aml wyt ti'n:

Mynd i ddramâu

.....Sawl gwaith yr wythnos
.....Unwaith yr wythnos
.....2 neu 3 gwaith y mis
.....Unwaith y mis
.....Unwaith pob 2 i 3 mis
.....2 neu 3 gwaith y flwyddyn
.....Unwaith y flwyddyn
.....Llai aml
.....Byth

AILADRODDWCH AR GYFER:

Mynd i sioeau cerdd
Mynd i'r opera
Mynd i gyngherddau cerddoriaeth glasurol
Mynd i gerddoriaeth fyw arall
Mynd i berfformiadau dawns
Mynd i orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft
Mynd i ddarlleniadau, adrodd storïau neu ddigwyddiadau llenyddol eraill
Mynd i garnifalau a chelfyddydau'r stryd

DANGOSWCH Y CERDYN

**C2 Y tro diwethaf est ti i weld drama,** (dylech ofyn ynghylch pob gweithgaredd a fynychwyd o leiaf unwaith y flwyddyn yn C1) **a oedd yr ymweliad:**

wedi'i drefnu gan ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol
wedi'i drefnu gan ysgol/coleg ond y tu allan i oriau ysgol
yn dy amser dy hun (heb ei drefnu gan ysgol/coleg)

AILADRODDWCH AR GYFER POB GWEITHGAREDD A FYNYCHWYD UNWAITH Y FLWYDDYN NEU'N AMLACH

--

DANGOSWCH Y CERDYN

**C3 Pa mor aml wyt ti'n <u>cymryd rhan</u> yn y gweithgareddau rydw i'n eu darllen ichi?**

Yn gyntaf, pa mor aml wyt ti'n

Cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol (fel canu neu chwarae offeryn)

.....Sawl gwaith yr wythnos
.....Unwaith yr wythnos
.....2 neu 3 gwaith y mis
.....Unwaith y mis
.....Unwaith pob 2 i 3 mis
.....2 neu 3 gwaith y flwyddyn
.....Unwaith y flwyddyn
.....Llai aml
.....Byth

AILADRODDWCH AR GYFER:

Cymryd rhan mewn gweithgaredd drama neu theatr (e.e. actio, cyfarwyddo, gwaith technegol)
Cymryd rhan mewn gweithgaredd dawns (nid disgo/mynd i glwb)

Cymryd rhan mewn gwneud ffilm neu fideo, neu ffotograffiaeth
Cymryd rhan mewn celfyddydau gweledol neu grefftau (e.e. paentio, tecstilau)
Cymryd rhan yn y celfyddydau digidol (creu a gwneud celfyddydau gan ddefnyddio technoleg ddigidol e.e. lanlwytho, creu neu ail-gymysgu cynnwys sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau, er enghraifft ar YouTube, Flickr, ac ati)
Cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol (e.e. barddoniaeth neu storïau)

--

DANGOSWCH Y CERDYN
**C4 Y tro diwethaf y cymeraist ti ran mewn gweithgaredd cerddorol** (dylech ofyn ar gyfer pob gweithgaredd y cymerwyd rhan ynddo o leiaf unwaith y flwyddyn yn C3) **a oedd:**

yn yr ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol
yn yr ysgol/coleg ond y tu allan i oriau ysgol
yn dy amser dy hun (heb fod yn ystod oriau ysgol/coleg)

AILADRODDWCH AR GYFER POB GWEITHGAREDD Y CYMERWYD RHAN YNDDO UNWAITH Y FLWYDDYN NEU'N AMLACH